**Vaughan Gething AC/AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref VG/08607/19

Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Ty Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Government.Committee.Business@llyw.cymru

10 Rhagfyr 2019

Annwyl Janet

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 19 Tachwedd ar ran y Pwyllgor Deisebau ynghylch Deiseb P-05-724 Hawliau i Ofal Iechyd Sylfaenol yn Gymraeg.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod derbyn gwasanaethau yn Gymraeg yn elfen allweddol o ofal. Rwy'n gwerthfawrogi'r ffaith mai pwynt cyswllt cyntaf y rhan fwyaf o bobl gyda'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru yw gofal sylfaenol ac ar gyfer grwpiau bregus, er enghraifft pobl gyda dementia a phlant, mae cyfathrebu yn eich iaith gyntaf yn fater o angen yn hytrach na dewis.

Yn wahanol i'r rhan fwyaf o gyrff y mae'n ofynnol iddynt gydymffurfio â safonau iaith Gymraeg, ni fu darparwyr gofal sylfaenol annibynnol yn ddarostyngedig i gynlluniau iaith o'r blaen. Mae'r chwe dyletswydd gyffredin a osodwyd ar ddarparwyr gofal sylfaenol annibynnol mewn perthynas â'r Gymraeg ar lefel sy'n cael ei hystyried yn briodol ac yn rhesymol ar hyn o bryd. Rwy'n ystyried fod y dyletswyddau yn eu ffurf bresennol yn gam cyntaf pwysig ar y daith tuag at sicrhau darpariaeth ehangach o wasanaethau gofal sylfaenol yn Gymraeg.

Buom yn glir o'r cychwyn cyntaf y byddai'n rhaid i ni adolygu'r dyletswyddau wrth iddynt fagu gwreiddiau. Nid oes gennym gynlluniau i wanhau'r dyletswyddau a byddwn yn eu hadolygu gyda'r nod o adeiladu ar y man cychwyn y maent yn ei gynnig ar hyn o bryd ac yng nghyd-destun darparu gwell gwasanaethau iechyd a gofal drwy'r Gymraeg yn unol â'r fframwaith *Mwy na geiriau*. Cynhelir yr adolygiad hwn yn ystod 2020/21.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn ddiweddar fe gynhaliom arolwg o bractisau Meddygfeydd Teulu er mwyn casglu data sylfaenol am wasanaethau Cymraeg. Dangosodd y canlyniadau lefel uchel y byddai gan 77% o bractisau Meddyg Teulu ddiddordeb i dderbyn canllawiau a chefnogaeth bellach ar y 'cynnig rhagweithiol'. Mae hyn yn dangos yr awydd sydd yna o fewn y sector i wella gwasanaethau Cymraeg. Bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi practisau i roi'r dyletswyddau ar waith ac i wella gwasanaethau Cymraeg ymhellach drwy ddatblygu pecyn cymorth gofal sylfaenol fydd yn cynnig canllawiau a chefnogaeth ymarferol. Rydym hefyd yn cynnal dau beilot Cymraeg Byd Busnes gyda dau glwstwr gofal sylfaenol er mwyn cefnogi cyflwyno'r dyletswyddau.

Mae'r dyletswyddau sy'n cael eu gosod ar gontractwyr gofal sylfaenol annibynnol, fel y safonau ar gyfer y sector iechyd, oll yn ddarnau pwysig o'r un jig-so o ymyrryd a chefnogi sy'n adeiladu ar y sylfeini cadarn a osodwyd gan *Mwy na geiriau* o fewn y sector iechyd a gofal.

Yn gywir,

**Vaughan Gething AC/AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services